

Galluogi i Chwaraeon yng Nghymru Ffynnu

Mae datblygiad y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a strategaeth Chwaraeon Cymru wedi canolbwyntio ar sicrhau bod unigolion, sefydliadau a phartneriaid o bob sector yn gallu gweld sut maent yn chwarae rhan benodol mewn sicrhau bod Cymru yn genedl actif, lle mae pawb yn gallu mwynhau chwaraeon am oes. Rydym yn gwybod, os ydym am barhau i sicrhau'r gefnogaeth honno i'n dull o weithredu, bod rhaid i ni ddarparu'r hyder bod ein bwriad strategol yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn gweithio, a bod ein canlyniadau'n canolbwyntio ar gyflawni newid gwirioneddol yn seiliedig ar dystiolaeth.

I ategu cyhoeddi strategaeth Chwaraeon Cymru, 'galluogi i Chwaraeon yng Nghymru ffynnu,' rydym wedi llunio'r ddogfen hon sy'n manylu ar sut byddwn yn parhau i fod yn atebol i'n bwriad. Er y byddai'r hyn rydym yn dymuno ei gyflawni, yn naturiol, yn adlewyrchu ble rydym yn rhoi adnoddau cyhoeddus, nid yw'r ddogfen hon yn strategaeth adnoddau. Yn hytrach, mae'n ffordd o amlinellu sut y gall Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid gyflawni canlyniadau ar y cyd trwy gydweithio.

Bwriad Strategol Chwaraeon Cymru – Beth rydym eisiau ei gyflawni

Mae bwriad strategol Chwaraeon Cymru wedi cael ei ddatblygu er mwyn adlewyrchu ein blaenoriaethau a sut gallwn ni fel sefydliad gyfrannu yn y ffordd orau at y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Drwy'r 6 bwriad strategol hyn, byddwn yn sicrhau bod Cymru'n 'genedl actif, lle mae pawb yn gallu mwynhau chwaraeon am oes'.

1. **Rhoi lle canolog i'r person:** Anghenion a chymhelliant yr unigolyn sy'n arwain y cyflawni, boed wrth ddechrau arni, wrth geisio gwneud cynnydd neu wrth anelu am ragoriaeth ar lwyfan y byd.
2. **Rhoi cychwyn gwych i bob person ifanc:** Mae gan bob person ifanc sgiliau, hyder a chymhelliant i allu mwynhau a gwneud cynnydd mewn chwaraeon, gan roi iddynt y sylfeini i fyw bywyd actif, iach a chyfoethog.
3. **Sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fod yn actif drwy chwaraeon:** Mae chwaraeon yn gynhwysol ac yn rhoi profiad gwych i bawb.
4. **Dod â'r bobl hyn at ei gilydd yn y tymor hir:** Ceir sector chwaraeon cydweithredol, cynaliadwy a llwyddiannus sy'n cael ei arwain gan wybodaeth a dysgu ar y cyd.
5. **Arddangos manteision chwaraeon:** Ceir tystiolaeth o effaith chwaraeon ac mae cyrhaeddiad chwaraeon yn cael ei ddeall, ei werthfawrogi, ei arddangos a'i ddathlu'n llawn ledled Cymru.
6. **Bod yn sefydliad uchel ei barch:** Mae Chwaraeon Cymru yn sefydliad uchel ei barch sy'n ceisio gorgyflawni drwy gyflwyno gwasanaeth o'r safon uchaf drwy staff gwerthfawr.

Cynllun Busnes Chwaraeon Cymru – Beth fyddwn yn ei wneud i gyflawni

Mae ein cynllun busnes yn amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r bwriad strategol. Mae hon yn broses ailadroddus ac yn un a fydd yn creu cynllun blaengar ac adnodd adlewyrchol ar gyfer deall cyflawni. Dyma'r camau gweithredu y byddwn yn eu rhoi ar waith i ddysgu a newid. Bydd cynllun busnes Chwaraeon Cymru'n cael ei adnewyddu'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ond yn mapio'r cyflawni dros linell amser gyson.


Fframwaith Canlyniadau Chwaraeon Cymru – Sut rydym wedi cyflawni

Nid yw ein ffyrdd o ddangos tystiolaeth yn rhestr hollgynhwysfawr, ond yn hytrach yn gymysgedd o wahanol ddulliau ansoddol a meintiol y mae'r sefydliad yn eu cynnig i fod wrth galon ein hadrodd yn ôl. Tynnir sylw at dystiolaeth yn flynyddol, ac at wahanol gyfnodau, gan ddibynnu ar briodolrwydd hynny.

Hefyd byddwn yn adolygu'n gyson y gwahanol ffyrdd y gallwn ni ddangos tystiolaeth o gynnydd a deall ein heffaith ar y sector chwaraeon a thu hwnt. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn chwarae rhan flaenllaw mewn gwerthuso ein perfformiad, yn adlewyrchu'r cyflawniadau positif sydd wedi bod, a'r cyfleoedd dysgu rydym yn dod ar eu traws, ar ein cyfer ni ein hunain a'n partneriaid.

Mae Chwaraeon Cymru eisiau, ac angen, bod yn well am gael dysgu'n ei arwain. Rydym yn cydnabod y bydd y ffordd orau o ddangos ein cynnydd yn cael ei datblygu ar y cyd â phartneriaid dros amser. Rydym eisiau dull addasol o weithredu fel rhan o'n hamcanion dysgu, i roi hyblygrwydd a bod yn agored i newid. Bydd hwn yn newid diwylliannol mawr i ni a'r ffordd rydym yn gweithio gyda phartneriaid, ond rydym yn credu y gallwn ni newid i'r ffordd hon o weithio gydag amser, gan adolygu ein camau gweithredu i sicrhau dealltwriaeth fanylach o'n canlyniadau.

Ym mhob un o feysydd bwriad strategol Chwaraeon Cymru, rydym yn cydnabod y bydd rhaid cydweithredu â'n partneriaid. Bydd rhai elfennau a fydd yn gyfrifoldeb penodol arnom ni i ddangos tystiolaeth ohonynt; bydd rhai angen partneriaid i'w cyflawni, a bydd rhai'n gyfrifoldeb ar y cyd i ni. Byddwn yn cydweithredu'n gyson gyda phartneriaid er mwyn datblygu ac adnewyddu'r casgliad hwn o fesurau, fel eu bod yn rhan o broses ailadroddus, gan adlewyrchu'r agenda gydweithredol rhwng Chwaraeon Cymru a'r unigolion a'r sefydliadau mae'n gweithio â hwy.



Tra bydd cynllun busnes Chwaraeon Cymru yn adrodd yn ôl ar gynnydd yn erbyn ein camau gweithredu yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, bydd y fframwaith canlyniadau'n rhan o'n harchwiliad iechyd blynyddol. Bob blwyddyn, bydd adroddiad blynyddol Chwaraeon Cymru yn adlewyrchu ar gynnydd a dysg ein gwaith ac yn dangos tystiolaeth o sut rydym yn cyflawni yn erbyn ein strategaeth.

Mae'r adrannau isod yn nodi rhai esiamplau o sut gellir cyflawni hyn. Bydd llawer mwy yn dod i'r amlwg yn null cydweithredol ein sector o ddatblygu system werthuso sy'n cael ei harwain gan ddysgu.

Rhoi lle canolog i'r person: Anghenion a chymhelliant yr unigolyn sy'n arwain y cyflawni, boed wrth ddechrau arni, wrth geisio gwneud cynnydd neu wrth anelu am ragoriaeth ar lwyfan y byd.

Beth fydd Chwaraeon Cymru yn ei wneud ei hun (meysydd allweddol)


1. Deall cymhelliant yr unigolyn.
2. Gosod y cyfranogwr wrth galon ein hadnoddau.
3. Datblygu gallu'r sector i roi lle canolog i'r person.
4. Hybu llais y cyfranogwr.

Beth fydd Chwaraeon Cymru yn ei wneud gyda phartneriaid (meysydd allweddol)

1. Cefnogi chwaraeon perfformiad uchel.
2. Deall yr amgylchedd person-ganolog delfrydol ar gyfer datblygu athletwyr yn y tymor hir.
3. Adlewyrchu ar ddyheadau'r unigolyn yn y ddarpariaeth mewn ysgolion ac yn y gymuned.
4. Datblygu gweithlu sy'n gallu diwallu anghenion yr unigolyn.

EsiAMPLAU o ffyrdd y byddwn yn dangos tystiolaeth o'n dysgu

Rhoi lle canolog i'r person



Rhoi cychwyn gwych i bob person ifanc: Mae gan bob person ifanc sgiliau, hyder a chymhelliant i allu mwynhau a gwneud cynnydd mewn chwaraeon, gan roi iddynt y sylfeini i fyw bywyd actif, iach a chyfoethog.

Beth fydd Chwaraeon Cymru yn ei wneud ei hun (meysydd allweddol)


1. Blaenoriaethu buddsoddiad mewn gweithgarwch corfforol i bobl ifanc.
2. Cyflwyno model darparu newydd ar gyfer chwaraeon cymunedol.
3. Datblygu partneriaethau allweddol gyda'r rhai sy'n rhannu ein nodau.
4. Dylanwadu ar y cwricwlwm newydd (Iechyd a Lles).
5. Darparu sylfaen gadarn o dystiolaeth am lefelau gweithgarwch pobl ifanc a'u cymhelliant.

Beth fydd Chwaraeon Cymru yn ei wneud gyda phartneriaid (meysydd allweddol)

1. Mae cynlluniau cyflawni Chwaraeon Gogledd Cymru'n rhoi blaenoriaeth i bobl ifanc.
2. Mudiad gwirfoddolwyr ifanc.
3. Cyrff chwaraeon yn osgoi arbenigo cynnar.
4. Cyflwyno cynlluniau'r Gronfa Iach ac Actif (blynyddoedd cynnar / plant a phobl ifanc).
5. Chwaraeon yn ddiogel(ach) i bobl ifanc.

Esiamplau o ffyrdd y byddwn yn dangos tystiolaeth o'n dysgu

Rhoi cychwyn gwych i bob person ifanc



Sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fod yn actif drwy chwaraeon: Mae chwaraeon yn gynhwysol ac yn darparu profiad gwych i bawb.

Beth fydd Chwaraeon Cymru yn ei wneud (meysydd allweddol)


1. Rhoi ffocws ar y profiad chwaraeon.
2. Buddsoddi yn y rhai sy'n gallu darparu cyfleoedd chwaraeon pleserus.
3. Cefnogi'r system chwaraeon.
4. Buddsoddi mewn grwpiau a dangynrychiolir.
5. Annog cydweithredu yn y sector.

Beth fydd Chwaraeon Cymru yn ei wneud gyda phartneriaid (meysydd allweddol)

1. Cael gwared ar rwystrau a chreu cymunedau actif cysylltiedig.
2. Cynyddu cyfleoedd i bobl gymryd rhan / cystadlu yn rheolaidd mewn chwaraeon.
3. Canolbwyntio ar bartneriaid mewn lleoliadau cymunedol ac addysg.
4. Gwarchod cyfleoedd i alluogi i gyfleoedd chwaraeon ffynnu.
5. Creu cyfleoedd aml-chwaraeon.

Esiampiau o ffyrdd y byddwn yn dangos tystiolaeth o'n dysgu

Sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fod yn actif drwy chwaraeon



Dod â phobl at ei gilydd yn y tymor hir: Ceir sector chwaraeon cydweithredol, cynaliadwy a llwyddiannus sy'n cael ei arwain gan wybodaeth a dysgu ar y cyd.

Beth fydd Chwaraeon Cymru yn ei wneud (meysydd allweddol)


1. Sefydlu rhwydwaith gwybodaeth ar gyfer y sector chwaraeon.
2. Creu datblygiad yn seiliedig ar berfformiad athletwyr.
3. Datblygu gallu, capasiti a hyder.
4. Rhannu gwybodaeth ar draws y sector.
5. Canolbwyntio ar y cyfleoedd ar y cyd drwy annog cydweithredu a chysylltu partneriaid.
6. Cynyddu gwerth drwy bartneriaid sy'n cael eu llywodraethu a'u harwain yn dda.

Beth fydd Chwaraeon Cymru yn ei wneud gyda phartneriaid (meysydd allweddol)

1. Datblygu partneriaethau cydweithredol.
2. Cyfrannu gwybodaeth a dysg o wahanol feysydd polisi.
3. Creu'r system briodol ar gyfer llwyddiant perfformiad uchel.
4. Gweithio gyda phartneriaid newydd er budd y sector cyfan.

EsiAMPLAU o ffyrdd y byddwn yn dangos tystiolaeth o'n dysgu

**Dod â phobl at ei gilydd
ar gyfer y tymor hir**



Arddangos manteision chwaraeon: Ceir tystiolaeth o effaith chwaraeon ac mae cyrhaeddiad chwaraeon yn cael ei ddeall, ei werthfawrogi, ei arddangos a'i ddathlu'n llawn ledled Cymru.

Beth fydd Chwaraeon Cymru yn ei wneud (meysydd allweddol)


1. Dangos tystiolaeth o gynnydd a thynnu sylw at arferion da yn genedlaethol ac yn gymunedol.
2. Bod yn sail i bolisi a chyflawni ar draws rhwydwaith ehangach o bartneriaid.
3. Dod â'r wybodaeth ar draws y sector chwaraeon a thu hwnt at ei gilydd.
4. Cyfathrebu effaith a phŵer chwaraeon.
5. Tynnu sylw at lwyddiannau chwaraeon yng Nghymru.

Beth fydd Chwaraeon Cymru yn ei wneud gyda phartneriaid (meysydd allweddol)

1. Cefnogi Cymru i berfformio'n llwyddiannus ar lwyfan y byd.
2. Dangos tystiolaeth o gyfraniad y sector at y **Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru**.
3. Tynnu sylw at gyrhaeddiad rhyngwladol Chwaraeon.
4. Dylanwadu ar gynllunio a pholisi.
5. Defnyddio chwaraeon ar gyfer newid cymdeithasol ehangach.

Esiampiau o ffyrdd y byddwn yn dangos tystiolaeth o'n dysgu

Arddangos manteision chwaraeon



Bod yn sefydliad uchel ei barch: Mae Chwaraeon Cymru yn sefydliad uchel ei barch sy'n ceisio gorgyflawni drwy gyflwyno gwasanaeth o'r safon uchaf drwy staff gwerthfawr.

Beth fydd Chwaraeon Cymru yn ei wneud (meysydd allweddol)

1. Buddsoddi yn natblygiad proffesiynol parhaus ein staff.
2. Gwella morâl staff.
3. Cyfathrebu ein cyflawniadau.
4. Datblygu partneriaethau newydd a gwell.
5. Bod yn esiampl dda wrth gyflawni ein rhwymedigaethau sector cyhoeddus.

Beth fydd Chwaraeon Cymru yn ei wneud gyda phartneriaid (meysydd allweddol)

1. Buddsoddi mewn partneriaid uchel eu parch sy'n cael eu llywodraethu'n dda.
2. Ymestyn enw da Chwaraeon Cymru a'i waith y tu hwnt i'r sector chwaraeon.
3. Annog partneriaid i weithredu yn y tymor hir ac yn foesebol wrth ddatblygu athletwyr.
4. Cyflawni uwchsgilio gyda chefnogaeth yn y sector.
5. Sefydlu gwybodaeth newydd i gefnogi gweithgarwch corfforol.

Esiamplau o ffordd y byddwn yn dangos tystiolaeth o'n dysgu

Bod yn sefydliad uchel ei barch

